

FFURFLEN ASESU RISGIAU IECHYD DIOGELWCH					
Asesiad o Risgiau ynghylch Coronafeirws Newydd (Covid-19)			Gwnaed yr asesiad gan:	Tîm Parhad Busnes	
Dyddiad yr Asesiad:	Gorffennaf 2020		Dyddiad yr Adolygiad:	Awst 2020 neu'n gynharach na hynny os bydd agen	

Defnyddiwch y ffurflen hon i asesu tasgau generig neu benodol, gweithgareddau gwaith neu offer. Dylai'r sawl sy'n gwneud yr asesiad fod yn gymwys i wneud hynny.

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
Trosglwyddo'r firws i weithwyr a phobl eraill a throsglwyddo'r firws rhyngddynt (ystyriwch y swyddfa ac ymweliadau allanol).	Staff. Pobl sy'n ymweld â Swyddfa'r GCA. Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith. Cynnydd posibl yn y risg o drosglwyddo'r firws rhwng pobl.	Rhoddwyd cyngor ac arweiniad i staff pan wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi gwybodaeth. Anfonwyd gohebiaeth allanol at randdeiliaid i'w diweddarau ynghylch y sefyllfa, e.e. canslo digwyddiadau DP. Cyflwynwyd trefniadau gweithio gartref ar gyfer yr holl staff o 18 Mawrth 2020, yn cynnwys cynghori staff i gynnal ymweliadau/cyfarfodydd yn	Sefydlu cynlluniau ynghylch dychwelyd i'r swyddfa/ailgychwyn ymweliadau allanol - ni ragwelir fod angen dychwelyd tan fis Medi 2020. Nodi'r rolau sydd eu hangen yn y swyddfa a phryd. Ystyried adolygiad o'r canllawiau ynghylch gwarchod ar Awst 2020 a'r effaith cysylltiedig o safbwynt dychwelyd.	Yr Uwch Dîm Rheoli Yr Uwch Dîm Rheoli Adnoddau Dynol	14 Awst 2020 – dylid ystyried gwybodaeth sy'n cael ei rhyddhau gan y llywodraeth a chlustnodi dyddiad cychwynnol i ddychwelyd i'r swyddfa a chynnal ymweliadau (gan gyflwyno hynny'n	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		rhithwir os bwriedir bwrw ymlaen â hwy.	Wrth ystyried dychwelyd, rhaid adolygu ac ystyried y gweithwyr hynny y gall eu nodweddion gwarchodedig eu rhoi mewn lefel uwch o berygl, edrych ar addasiadau rhesymol a'u trafod a sicrhau nad yw'r camau sefydliadol sy'n cael eu rhoi ar waith yn cael effaith negyddol na ellir ei chyfiawnhau ar rai grwpiau. Sefydlu system neilltuo a chofrestru i reoli'r nifer oedd yn y swyddfa er mwyn cynnal gofynion cadw pellter cymdeithasol a chynnal gwybodaeth ynghylch pwy sydd wedi ymweld â'r swyddfa phryd, yn cynnwys ymwelwyr (gan ystyried rheolau profi, olrhain ac amddiffyn). Cyhoeddi canllawiau ynghylch teithio i'r gwaith ac oddi yno, ac ynghylch busnes cysylltiedig â	Adnoddau Dynol Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes	raddol efallai) Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
			gwaith, e.e. dim rhannu ceir, rheolau sy’n gysylltiedig â’r defnydd o gludiant cyhoeddus. Gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol yn y gweithle a chanllawiau ynghylch hynny, e.e. gweithredu'r rheol 2m, manau cyfyngedig, defnydd o offer, llifoedd o amgylch y swyddfa, e.e. systemau un ffordd, cyfyngu ar yr eitemau personol y gall staff ddod gyda hwy i'r gweithle, arferion glendid ac ati. Addasu adeiladau i gynorthwyo i gynnal pellter cymdeithasol – ystyried trefnu i'r gweithlu ddychwelyd yn raddol neu niferoedd llai yn y swyddfa yn ystod yr wythnos waith e.e. “swigod”, cyfyngiadau ar y nifer a all ddefnyddio swyddfeydd a manau a rennir, e.e. gwahanu desgiau, arwyddion, sticeri a marciau ar y lloriau, a	Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes	hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl.	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
			yw'n ymarferol parhau â threfniadau desgiau poeth yn ystod y cyfnod hwn oherwydd ni ddylai staff rhannu offer, cyfyngu ar y defnydd o offer sy'n cael ei gyffwrdd yn aml yn y gweithle, clytiau diheintio/hylif diheintio dwylo, arwyddion i atgoffa pobl am arferion glendid. Addasu prosesau gwaith i gynorthwyo i gynnal pellter cymdeithasol, e.e. ystyried a yw cyfarfodydd/sesiynau hyfforddiant yn hanfodol neu beidio, ystyried yr ystafelloedd a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd, cynnal cyfarfodydd rhithwir yn lle rhai wyneb yn wyneb, cynnal cyfarfodydd yn yr awyr agored, darparu hylif diheintio dwylo yn ystod cyfarfodydd. Nodi'r broses i'w dilyn os bydd rhywun yn y gweithlu yn cael prawf positif – ystyried effaith canllawiau.	Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes	Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys –	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
			olrhain, profi ac amddiffyn gan Lywodraeth Cymru. Effaith sefyllfaoedd ble na ellir cynnal pellter cymdeithasol – asesu risgiau, cyngor a chanllawiau i weithwyr, e.e. mwy o olchi dwylo, gofyniad i wisgo cyfarpar diogelu personol os na ellir cynnal pellter cymdeithasol, e.e. masgiau wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gymudo. Codi arwyddion priodol mewn swyddfeydd fel dull gweledol o ategu cyfathrebu ynghylch cadw pellter cymdeithasol, llwybrau o amgylch adeilad ac arferion glendid. Mynd ati i gyhoeddi canllawiau ynghylch cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau ac ymwelwyr yn dod i’r swyddfa.	Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes	erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i’r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i’r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i’r swyddfa yn hysbys – erbyn 31	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
			Mynd ati i gyhoeddi canllawiau ynghylch cynnal ymweliadau allanol e.e. deall protocolau yn y sefydliadau y byddant yn ymweld â hwy a chadw at y protocolau hynny. Llunio a chyfathrebu cynlluniau ynghylch achosion a gaiff eu cadarnhau ymhlith y gweithlu, cydlynu ymatebion profi, olrhain ac amddiffyn a phrosesau i reoli unrhyw gynnydd yn nifer achosion pandemig Covid-19 yn y dyfodol, e.e. strategaeth ymadael gyflym.	Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes	Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl.	
Arferion glendid gwael yn y gweithle.	Staff. Pobl sy'n ymweld â Swyddfa'r GCA. Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad	Cyngor i staff ynghylch golchi dwylo'n briodol. Sicrhau fod cyfleusterau golchi dwylo â dŵr a sebon ar gael.	Sefydlu cynlluniau ynghylch dychwelyd i'r swyddfa/ailgychwyn ymweliadau allanol - ni ragwelir fod angen dychwelyd tan fis Medi 2020.	Yr Uwch Dîm Rheoli	14 Awst 2020 – dylid ystyried gwybodaeth sy'n cael ei rhyddhau gan y	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
	agos ag aelodau o staff mewn perthynas â’n gwaith. Cynnydd posibl yn y risg o drosglwyddo’r firws rhwng pobl.	Cyn cyflwyno trefniadau gweithio gartref ar gyfer yr holl staff, darparwyd hylif diheintio dwylo a chlytiau diheintio mewn rhannau o’r swyddfa sy’n cael eu rhannu.	Rhoi canllawiau i weithwyr ynghylch arferion glendid priodol, e.e. golchi dwylo, defnyddio hancesi papur, rheoli gwastraff ac ati. Cynyddu amllder glanhau a chlirio gwastraff, yn cynnwys y gofyniad y dylai staff lanhau eu desgiau ac offer a rennir cyn ac ar ôl eu defnyddio.	Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes	llywodraeth a chlustnodi dyddiad cychwynnol i ddychwelyd i’r swyddfa a chynnal ymweliadau allanol (gan gyflwyno hynny’n raddol efallai) Pan fydd y dyddiad dychwelyd i’r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl. Pan fydd y dyddiad dychwelyd i’r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl.	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
			Cynyddu argaeledd hylif diheintio dwylo a chlytiau diheintio ym mhob rhan o'r swyddfa ac mewn mannau a rennir. Canllawiau ynghylch bwyd yn y gweithle a glendid cysylltiedig, e.e. mynd â gwastraff bwyd/bocsys bwyd adref.	Bydd Cymorth Busnes yn archebu'r cyfarpar Tîm Parhad Busnes	Diwedd yr wythnos yn cychwyn 06 Gorffennaf 2020 Pan fydd y dyddiad dychwelyd i'r swyddfa yn hysbys – erbyn 31 Awst 2020 o bosibl.	
Arferion glanhau aneffeithiol yn y gweithle.	Staff. Pobl sy'n ymweld â Swyddfa'r GCA. Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith. Cynnydd posibl yn y risg o drosglwyddo'r firws rhwng pobl.	Trafod â landlordiaid ynghylch darpariaeth glanhau, e.e. glanhau'n amlach yn y mannau hynny y gwneir defnydd sylweddol ohonynt, e.e. handlenni drysau ac ati. Ystyried cyngor y Llywodraeth ynghylch glanhau.	Sefydlu cynlluniau ynghylch dychwelyd i'r swyddfa/ailgychwyn ymweliadau allanol - ni ragwelir fod angen dychwelyd tan fis Medi 2020.	Yr Uwch Dîm Rheoli	14 Awst 2020 – ystyried gwybodaeth sy'n cael ei rhyddhau gan y llywodraeth a chlustnodi dyddiad arfaethedig i ddychwelyd i'r swyddfa a chynnal ymweliadau (gan	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
			Cyn y dyddiad dychwelyd arfaethedig, dylid trafod y gofynion o ran glanhau dwysach â’r landlord a dylid ystyried canllawiau’r llywodraeth. Sicrhau y caiff desgiau ac offer a rennir eu glanhau yn amlach, cyn ac ar ôl eu defnyddio. Cyfyngu ar y defnydd o eitemau a rennir a diddymu’r angen i rannu eitemau penodol os yw hynny’n bosibl. Rhoi canllawiau i staff. Cyhoeddi canllawiau sy’n ymwneud yn benodol â glanhau pan fo achosion a amheuir neu yn dilyn hysbysu’r cyswllt trwy brosesau profi, olrhain ac amddiffyn.	Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes Tîm Parhad Busnes	gyflwyno hynny’n raddol efallai) Trafod â’r landlord erbyn 14 Awst 2020. Rhoi canllawiau i staff erbyn 31 Awst 2020. Rhoi canllawiau i staff erbyn 31 Awst 2020. Rhoi canllawiau i staff erbyn 31 Awst 2020.	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
Cyfnod estynedig o weithio gartref.	Staff – nid yw staff yn gyfarwydd â gweithio gartref yn rheolaidd ac yn barhaus. Efallai fod staff yn anghyfarwydd â sut i reoli staff a thimau o bell. Efallai na fydd mannau gweithio yn ddelfrydol mewn amgylchedd cartref. Gall gweithio gartref a’r amgylchiadau presennol wneud i staff deimlo ynysig ac yn unig, a dioddef gan orbryder a straen. Efallai fod angen i staff ddatblygu sgiliau i’w galluogi i weithio gartref yn effeithiol.	Rhoddwyd canllawiau i staff ynghylch gweithio gartref i’w cynorthwyo i ddefnyddio ystafell i weithio gartref, yn cynnwys canllawiau ynghylch cyfarpar sgrin arddangos, ystyriaethau ynghylch diogelwch a chanllawiau ynghylch llesiant. Caniatawyd i staff fynd ag offer o’r swyddfa adref ar ddechrau’r cyfnod gweithio gartref, e.e. monitorau, bysellau, cadeiriau. Cynghorwyd staff i drafod unrhyw bryderon â rheolwyr. Rhoddwyd canllawiau i reolwyr ynghylch cymorth priodol â staff, yn cynnwys cysylltu’n rheolaidd â hwy ynghylch eu llesiant. Canllawiau Rheoli Pwysau yn y Gwaith ar gyfer yn SharePoint a thempledi Cynllun Gweithredu Gwell	Adolygu’r canllawiau gweithio gartref yn rheolaidd ac ymateb i bryderon a gaiff eu mynegi gan staff. Ystyried effaith hunan-ynysu ar gynlluniau dychwelyd i weithio ac ystyried gweithwyr allweddol.	Adnoddau Dynol Uwch Dîm Rheoli/Tîm Parhad Busnes	Adolygu’r canllawiau erbyn 14 Awst 2020. 14 Awst 2020 – ystyried gwybodaeth sy’n cael ei rhyddhau gan y llywodraeth a chlustnodi dyddiad arfaethedig i ddychwelyd i’r swyddfa a chynnal ymweliadau (gan gyflwyno hynny’n raddol efallai)	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
	Aelodau eraill o’r aelwyd – effaith ar berthnasodd teuluol. Mae’n ofynnol i staff sicrhau cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gwaith a’u cyfrifoldebau gofalu.	Iechyd ar gyfer i staff/rheolwyr. Atgoffwyd rheolwyr i annog staff i gael egwylliau rheolaidd o’r gwaith, yn cynnwys cyfnodau o wyliau. Adran TG ar gael i gynnig cymorth o bell i staff ynghylch anawsterau technegol a gosod offer. Cydnabyddiaeth fod aelodau staff yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio gartref ac amgylchiadau teuluol – cynghorwyd rheolwyr i fod yn gefnogol. Sylw i lesiant aelodau o staff. Mynediad at Raglen Cynorthwyo Cyflogeion.				
Gallai llesiant gael ei effeithio.	Staff – pryder ynghylch y sefyllfa, cynnydd mewn arwahanrwydd yn effeithio ar iechyd a llesiant.	Cyfathrebu’n rheolaidd â staff cyn ac yn ystod y cyfnod o weithio gartref, yn cynnwys rhannu gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru.	Datblygu meysydd llesiant yn rheolaidd wrth i wybodaeth newydd gael ei rhyddhau. Dylid ystyried llesiant staff fel rhan o gynlluniau	Adnoddau Dynol Uwch Dîm Rheoli/Tîm	Parhaus 14 Awst 2020 –	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		Cyfarfodydd gyda’r Grŵp Ffocws Llesiant. Dosbarthu rhestr chwarae llesiant sy’n cyfeirio at amrywiaeth o ganllawiau a chymorth sydd ar gael i staff. Sefydlu hwb llesiant ar Microsoft Teams. Fideos wythnosol gan y Rheolwr Gyfarwyddwr. Mynediad at Raglen Cynorthwyo Cyflogeion.	dychwelyd i’r swyddfa. Dylai ystyriaethau ynghylch gweithwyr allweddol gynnwys ffactorau yn ymwneud ag ynysigrwydd cymdeithasol a’r posibilrwydd o alluogi rhai aelodau o staff i reoli’r agwedd hon.	Parhad Busnes	ystyried gwybodaeth sy’n cael ei rhyddhau gan y llywodraeth a chlustnodi dyddiad arfaethedig i ddychwelyd i’r swyddfa a chynnal ymweliadau (gan gyflwyno hynny’n raddol efallai)	
Effaith negyddol ar berthnasoedd â rhanddeiliaid.	Perthnasoedd rhwng staff a rhanddeiliaid pe ystyrid bod y sefyllfa wedi’i thrafod yn wael.	Cyfathrebu’n rheolaidd â rhanddeiliaid wrth i’r sefyllfa ddatblygu, yn cynnwys eu hysbysu am ddulliau o gysylltu â staff i gael cymorth. Mae timau’r GCA wedi ymateb i’r sefyllfa a sefydlu dulliau newydd o gydweithio â rhanddeiliaid yn ôl y galw, e.e. strategaeth dysgu o bell.	Adolygu ac ystyried dulliau newydd o weithio gyda rhanddeiliaid a myfyri ynghylch gwelliannau i osgoi dychwelyd yn ddisymwth i’r hen ddulliau o weithio.	Yr Uwch Dîm Rheoli/ Uwch Dîm Arwain	14 Awst 2020	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		Canslo digwyddiadau hyfforddiant wyneb yn wyneb a’r cyfathrebu oedd y gysylltiedig â hyn. Llinellau ffôn y swyddfa yn cael eu dargyfeirio i rifau ffôn staff sy’n gweithio o bell.				
Mynediad at swyddfeydd yn ystod y cyfnod pan fyddant ar gau oherwydd rhesymau brys.	Staff Pobl sy’n ymweld â Swyddfa’r GCA. Unrhyw un sy’n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â’n gwaith.	Dim ond aelodau staff dynodedig y GCA a all fynd i’r swyddfa oherwydd rhesymau brys (dim ymwelwyr). Cynghorir staff penodedig y dylent gynnal rheolau cadw pellter cymdeithasol wrth fynd i’r swyddfa a chadw at gyngor ynghylch iechyd a diogelwch wrth fynd i mewn ac allan o’r adeilad.	Wrth i’r swyddfeydd ailagor, bydd y canllawiau yn ehangu neu’n disodli protocolau a sefydlwyd yn flaenorol yn y maes hwn.	Uwch Dîm Rheoli/Tîm Parhad Busnes		
Staff y GCA sy’n darparu cymorth mewn ysgolion ardal yn ystod yr ymateb i Covid-19.	Staff y GCA – mwy o gyswllt ag unigolion mewn amgylchedd ysgol/cynnydd o ran baich gwaith. Aelodau teuluoedd staff y GCA – mwy o gyswllt ag	Ceisiwyd cynigion gwirfoddol o gymorth gan staff fel rhan o’r ymateb i Covid-19 - dim rheidrwydd ar staff i gynorthwyo. Cydnabyddiaeth o’r cymorth a ddarparwyd a’r effaith posibl ar faich gwaith arferol. Dylai rheolwyr llinell	Cynnal cyswllt â’r sawl sy’n gwirfoddoli mewn perthynas â’r canllawiau a ddarperir mewn ysgolion ardal. Sicrhau fod cyfanswm y gwirfoddoli sy’n digwydd yn realistig.	Uwch Dîm Rheoli/ Adnoddau Dynol	Rheolaidd, yn ôl y galw.	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
	unigolion mewn ysgolion ardal a dychwelyd i gartref eu teulu. Staff sy’n gweithio mewn ysgolion/ disgyblion – mwy o gyswllt â staff/ disgyblion yn yr ysgol a’r potensial i ledaenu’r firws.	gynnal trafodaeth reolaidd i sicrhau dealltwriaeth o’r effaith cysylltiedig ar faich gwaith a thrafod dulliau lliniaru priodol. Cynghori staff sy’n cynnig cymorth y bydd holl bolisiâu a gweithdrefnau’r GCA yn gymwys pan fyddant mewn ysgol ardal. Cynghori staff i wisgo bathodyn ID trwy’r adeg pan fyddant mewn ysgol ardal. Cynghori staff na ddylent fynd i ysgol ardal os byddant hwy neu os bydd unrhyw aelodau o’u teuluoedd yn arddangos unrhyw symptomau coronafeirws neu os ystyrir eu bod yn agored i niwed yn unol â’r cyngor ynghylch gwarchod ac amddiffyn. Cynghori staff na ddylent fynd ag offer diangen rhwng o’u cartref i’r ysgol ardal, ac os yw’n ofynnol, dylent ei lanhau cyn ac ar ôl ei	Parhau i fonitro canllawiau ynghylch y defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol mewn ysgolion ardal.			

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		ddefnyddio yn yr ysgol ardal, e.e. ffôn symudol, cerdyn ID ar gortyn. Cynghori staff i olchi eu dwylo (â dŵr a sebon am o leiaf 20 eiliad) wrth gyrraedd yr ysgol ardal (neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo sy’n cynnwys o leiaf 60% o alcohol yn lle hynny). Dylent hefyd olchi eu dwylo yn rheolaidd yn yr ysgol ardal ac yn unol â phrotocolau’r ysgol. Cynhaliwyd gwiriadau cefndir y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) pan gychwynnodd staff y GCA weithio i’r sefydliad. Cynghori staff i sicrhau y gellir cysylltu â hwy trwy’r adeg pan fyddant mewn ysgol ardal neu pan fyddant yn teithio yno ac oddi yno. Cynghori staff sy’n cynnig cymorth i ddod yn gyfarwydd â’r canllawiau a ddarperir mewn ysgolion				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		ardal a chydymffurfio â hwy, e.e. canllawiau ynghylch iechyd a diogelwch a diogelu. Cyfeirio staff at ddogfen canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch ysgolion ac ysgolion ardal. Sicrhau fod aelodau staff yn deall y gallant hysbysu eu rheolwr llinell, uwch reolwyr neu adnoddau dynol am unrhyw bryderon ynghylch gweithgarwch sy’n gysylltiedig â’r ysgol ardal. Mae Rhaglen Cynorthwyo Cyflogeion ar gael i staff y GCA.				
Cyfathrebu aneffeithiol â gweithwyr a rhanddeiliaid ynghylch yr ymateb sy’n digwydd i Covid-19.	Staff. Pobl sy’n ymweld â Swyddfa’r GCA. Unrhyw un sy’n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn	Rhoddwyd cyngor ac arweiniad i staff pan wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi gwybodaeth. Rhoddwyd cyngor ac arweiniad rheolaidd i staff yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud yn dilyn	Sicrhau fod sianelau cyfathrebu yn cael eu cynnal a bod dulliau priodol yn cael eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth ynghylch dychwelyd i’r swyddfa/ ymweliadau allanol/ derbyn ymwelwyr i’r swyddfa.	Uwch Dîm Rheoli/Tîm Cynllunio Parhad Busnes	Cyhoeddir dogfennau canllawiau fel y cânt eu llunio.	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
	perthynas â’n gwaith. Staff sy’n gweithio mewn ysgolion/ disgyblion – mwy o gyswllt â staff/ disgyblion yn yr ysgol a’r potensial i ledaenu’r firws.	gweithredu’r gofyniad i weithio gartref.	Ymgynghori’n unigol â gweithwyr cyn dychwelyd ac ystyried pryderon ac awgrymiadau. Trafod ag Undebau Llafur. Ystyried yr angen am broses sefydlu o’r newydd ar gyfer gweithwyr sy’n dychwelyd. Sefydlu proses o drafodaeth reolaidd â rheolwyr llinell ar ôl dychwelyd, gan roi sylw allweddol i iechyd, diogelwch a llesiant. Mae angen i reolwyr gynnal trafodaeth sensitif a didwyll gyda phob unigolyn i drafod unrhyw newidiadau a/neu gymorth rheolaidd i hwyluso dychweliad effeithiol i’r	Adnoddau Dynol/Rheolwyr Llinell Uwch Dîm Rheoli/ Adnoddau Dynol Uwch Dîm Arwain/ Adnoddau Dynol/Rheolwyr Llinell	Bwriedir cynnal cyfarfod gyda’r holl staff ar 10 Gorffennaf 2020. Cyfarfod gyda’r undebau llafur ar 21 Gorffennaf 2020 Rheolaidd trwy gydol y cyfnod dychwelyd i’r swyddfa ac yn ystod ymweliadau allanol.	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
			gweithle. Dylai hyn gynnwys pynciau fel newidiadau i wasanaethau neu weithdrefnau cwmni, sut mae gofynion, ymholiadau neu faterion penodol rhanddeiliaid yn cael sylw, a hefyd unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt i’w dyletswyddau neu dasgau yn y gwaith, gan gynnwys ystyriaeth briodol i unrhyw grwpiau gwarchodedig, ac addasiadau rhesymol/ asesiadau o risgiau iechyd a diogelwch gofynnol.			

ATODIAD 2 – Matrics Risgiau

Tebygolrwydd – Gan ystyried y mesurau rheoli sydd wedi'i sefydlu a'u digonolrwydd, pa mor debygol yw hi y gallai digwyddiad o'r fath ddigwydd? Dewiswch sgôr yn unol â'r raddfa ddilynol:

Lefel		Disgrifiad
5	Bron yn Sicr	Tebygol o ddigwydd ar sawl achlysur, anhawster parhaol (fe wnaiff ddigwydd yn ddyddiol)
4	Tebygol	Fe wnaiff ddigwydd, ond nid yw'n anhawster parhaus (fe wnaiff ddigwydd yn fisol).
3	Posibl	Gallai ddigwydd yn achlysurol (yn flynyddol o bosib).
2	Annhebygol	Ni ddisgwylir iddo ddigwydd ond mae'n bosibl (annhebygol o ddigwydd dros gyfnodau byrrach – blwyddyn neu ddwy – posibl dros gyfnodau hirach)
1	Prin	Mae'n amheus y gwnaiff fyth ddigwydd (annhebygol o ddigwydd, hyd yn oed dros gyfnod hirach)

Difrifoldeb – Gan ystyried y mesurau rheoli sydd yn eu lle a'u digonolrwydd, pa mor ddifrifol fyddai canlyniadau digwyddiad o'r fath? Dewiswch sgôr yn unol â'r raddfa ddilynol:

Lefel	Disgrifiydd	Effaith Gwirioneddol neu Bosibl ar Unigolyn/Unigolion	Effaith Gwirioneddol neu Bosibl ar yr Awdurdod
5	Trychinebus	Marwolaeth neu niwed parhaol	Ymchwiliad gan HSE Gellir disgwyl cyfreithia/bydd cyfreithia yn sicr o ddigwydd
4	Mawr	Anaf neu salwch parhaol, e.e. anaf/salwch yn arwain at ymddeoliad neu adleoli staff y mae'n rhaid hysbysu'r awdurdodau amdano yn unol â RIDDOR	Hysbysadwy yn unol â gofynion RIDDOR Salwch tymor hir Gellir disgwyl cyfreithia/bydd cyfreithia yn sicr o ddigwydd
3	Cymedrol	Anaf/niwed neu salwch lled-barhaol, e.e. anaf y mae angen 6-12 mis i'w ddatrys, neu anaf sy'n golygu fod angen cymorth gan wasanaeth lechyd Galwedigaethol/adsefydlu.	Hysbysadwy yn unol â gofynion RIDDOR Salwch tymor hir Cyfreithia yn bosibl ond nid yn sicr Posibilrwydd sylweddol o dderbyn cwyn
2	Bychan	Anaf/niwed neu salwch tymor byr, e.e. anaf neu salwch sydd wedi cael ei ddatrys o fewn mis	Risg minimol i'r GCA Salwch tymor byr Cyfreithia yn annhebygol Cwyn yn bosibl
1	Dibwys	Dim anaf na chanlyniad anffafriol	Dim risg i'r GCA Annhebygol o arwain at gŵyn Y risg o gyfreithia yn fychan iawn

Sgôr y Risg/Gweithredu Gofynnol

		DIFRIFOLDEB					CAM GWEITHREDU
		1	2	3	4	5	
		Dibwys	Bychan	Cymedrol	Mawr	Trychinebus	
1	Prin	1	2	3	4	5	Dim angen gweithredu di-oed
2	<u>Annhebygol</u>	2	4	6	8	10	Angen gweithredu o fewn 3-6 mis
3	Posibl	3	6	9	12	15	Angen gweithredu di-oed
4	Tebygol	4	8	12	16	20	
5	Bron iawn yn sicr		10	15	20	25	